Estyn

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Llan-y-pwll

Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Llan-y-pwll yn gymuned ddysgu ofalgar, hapus a chynhwysol ble mae ymdeimlad cryf bod bob disgybl yn aelod o deulu mawr, clòs. Agorodd yr ysgol ym mis Medi 2022 ac, ar adeg yr arolygiad, roedd yn darparu addysg i ddisgyblion hyd at ac yn cynnwys Blwyddyn 3. Mae adnabyddiaeth y staff o'r disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach yn gynhwysfawr a defnyddir y wybodaeth hon yn fedrus i ddarparu cefnogaeth bwrpasol i ddisgyblion er mwyn diwallu eu hanghenion lles a'u dysgu yn amserol.

Mae gan arweinwyr a staff ddisgwyliadau uchel o ran hybu'r Gymraeg ac maent yn arddel yr iaith yn fwriadus, sy'n dechrau cael effaith fuddiol ar fedrau llafar disgyblion o oedran ifanc. Ar y cyfan, maent yn ymddwyn yn dda ac yn dechrau datblygu dealltwriaeth gynyddol o ddibenion rheolau, gwobrau a chosbau yn yr ysgol sy'n cyfrannu'n fuddiol at agweddau cadarnhaol y rhan fwyaf o ddisgyblion at eu dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson ar draws ystod o fedrau o'u mannau cychwyn amrywiol, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu ystyrlon a diddorol i ddisgyblion sy'n adlewyrchu'r cyd-destun lleol yn bwrpasol. Fodd bynnag, nid yw'r gweithgareddau dysgu bob amser yn sicrhau'r her briodol i gefnogi disgyblion i wneud y cynnydd gorau ym mhob agwedd o'u datblygiad.

Pan gânt y cyfle, mae disgyblion yn cynnig syniadau priodol i'w themâu ac yn barod i gefnogi gweithgareddau gwerthfawr er mwyn codi arian ar gyfer helpu eraill y tu hwnt i'w milltir sgwâr. Er hyn, nid yw rolau arwain disgyblion trwy gyfrwng cynghorau pwrpasol wedi'u datblygu'n llawn er mwyn cael effaith ehangach ar fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae'r trefniadau ar gyfer monitro a gwerthuso gwaith yr ysgol yn bwrpasol. Caiff staff gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu harferion proffesiynol yn barhaus trwy arlwy dysgu proffesiynol cyfoethog yn fewnol a thu hwnt i'r ysgol. Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol ac yn darparu cydbwysedd synhwyrol o gymorth a her i'r pennaeth. Er hyn, nid yw'r corff llywodraethol yn ymgymryd â rôl ddigon cadarn ym mhrosesau hunanwerthuso'r ysgol yn ddigon cyson er mwyn adnabod ei chryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae'r modd mae arweinwyr yn adeiladu partneriaethau gwerthfawr â rhieni a'r gymuned ehangach yn nodwedd effeithiol o waith yr ysgol.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1. Darparu gweithgareddau dysgu sy'n sicrhau her gyson i ddisgyblion

A2. Datblygu rôl arwain disgyblion i ddylanwadu'n ehangach ar fywyd a gwaith yr ysgol

A3. Grymuso'r corff llywodraethol i weithredu prosesau hunanwerthuso yn fwy effeithiol

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 19/12/2025